Registered Charity/Elusen Gofrestredig: 1093260
Company limited by guarantee/Cwmni Cyfyngedig trwy warant: 4296436

Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs

# YMUNWCH Â NI AR GYFER GWEMINAR I DRIN A THRAFOD AGWEDD HOLISTAIDD AR GYFER CHWARAE AC AMRYWIAETH GYDA'N SIARADWR GWADD, JAMEL CAMBELL

**Mae Jamel C. Campbell yn addysgwr blynyddoedd cynnar, ymgynghorydd EY, arweinydd radio/teledu, storïwr ac awdur llwyddianus.**



Mae Jamel wedi bod yn y diwydiant addysg blynyddoedd cynnar ers dros 20 mlynedd. Er ei fod yn arbenigwr yn y maes blynyddoedd cynnar, mae hefyd wedi addysgu ac wedi cefnogi plant o 0 i 19 oed. Mae Jamel yn un o'r dynion sydd wedi cael eu nodi fel pencampwyr/llysgenhadon ar gyfer Dynion yn y Blynyddoedd Cynnar y DU.

Mae wedi cael sylw yn y cyfryngau am ei brofiad helaeth a'i wybodaeth fanwl am y Blynyddoedd Cynnar, ynghyd ag arferion effeithiol a hynod iawn. Mae Jamel wedi sefyll ar lwyfannau niferus ac mewn sefydliadau enwog fel prif siaradwr, gan gynnwys Prifysgol y Santes Fair, Prifysgol Dwyrain Llundain a Phrifysgol Caerfaddon, i enwi dim ond ychydig. Mae Jamel wedi ysgrifennu erthyglau ar gyfer papurau newydd lleol fel y Catford Chronicle ac ar gyfer cylchgronau addysg a blynyddoedd cynnar adnabyddus, gan gynnwys Optimus Education, TES, Famly, FSF/Tapestry, EYE, Teach Early Years, a chylchgrawn lles Blynyddoedd Cynnar. Mae hefyd wedi ymddangos ar CBeebies "Tiny Happy People" fel cynghorydd blynyddoedd cynnar, wedi'i gefnogi gan y Dduges Caergrawnt, ac wedi gweithio gyda Bitesize BBC i ddarparu awgrymiadau pontio ar gyfer rhieni a gweithwyr proffesiynol yn ogystal. Mae Jamel wedi cydweithio â llawer o weithwyr proffesiynol a chynghorwyr uchel eu parch yn y maes. Mae'n un o gyd-sylfaenwyr yr Early Years Blacklist, sef cyfeiriadur o weithwyr proffesiynol BC sydd â threftadaeth Affro-Caribïaidd a melanog. Mae Jamel yn storïwr gwych ac wedi partneru â sefydliadau enfawr fel amgueddfa'r Tate a Victoria Albert i adrodd straeon a rhannu ei adnabyddiaeth o BC a llythrennedd plant. Mae Jamel yn angerddol am y blynyddoedd cynnar, mae'n pwysleisio'r pwysigrwydd o gael dynion yn y maes blynyddoedd cynnar a'r pwysigrwydd o gael gweithlu, cwricwlwm ac addysgeg gynhwysol amrywiol a chytbwys. Mae wedi partneru gyda MITEY (Men in the Early Years) sy'n gysylltiedig â'r Fatherhood Institute. Mae'n cynnig gweithdai hyfforddi ar gyfer timau a lleoliadau BC yn seiliedig ar ymagweddau at Ymarfer, cynrychiolaeth (ymarfer gwrth-hiliaeth) a lles staff.



**Gweminar Ar-lein – Cyflwyniad i Wrth-Hiliaeth**

****CLYBIAU ABERTAWE A CHONWY YN UNIG****

19/03/2025 | 18:30-19:30 | Ar-lein

**Trefnwch le yma**